# Problemau'n ymwneud â pherthynas, Cam-drin Domestig Thrais Rhywiol

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Byw Heb Ofn (Live Fear Free)** **0808 80 10 800**

Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Cymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i unigolion sydd wedi profi, neu sy'n wynebu risg o drais neu gam-drin. Caiff y linell gymorth ei rhedeg gan Cymorth i Ferched Cymru ac mae'n gweithredu 24/7.

**Cymorth i Ferched (Women's Aid)**
**0808 2000 247**

Elusen genedlaethol sy'n gweithio er mwyn rhoi stop ar gam-drin domestig yn erbyn menywod a phlant drwy gefnogi goroeswyr, addysgu a rhoi gwybodaeth, cefnogi'r sector a chodi ymwybyddiaeth. Mae eu llinell gymorth ar agor 24/7 a chaiff ei rhedeg gan Rufuge.

**New pathways** **01685 379 310 or enquiries@newpathways.org.uk**

Gwasanaeth cymorth trais rhywiol sy'n darparu cymorth arbenigol ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan dreisio, ymosodiad rhywiol neu gam-drin.

**Respect** **0808 8010327**

Llinell gyngor ar gyfer dynion sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am-5pm er mwyn cynnig cymorth mewn perthynas â cham-drin domestig.

**Prosiect Dyn** **029 2022 0033**

Prosiect Dyn Cymru Ddiogelach yw'r unig wasanaeth yng Nghymru sy'n darparu cymorth arbenigol sy'n benodol ar gyfer dynion hoyw, heterorywiol, deurywiol a thrawsryweddol sy'n profi cam-drin domestig neu gam-drin rhywiol.

**Stonewall Cymru**

Yn darparu cyngor a chymorth ar amrywiaeth o broblemau i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol yng Nghymru.

**BAWSO** **0800 7318147**

Mae BAWSO yn darparu llety diogel i fenywod a phlant o leiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig yng Nghymru. Mae eu llinell gymorth ar gael 24/7.

**Concern Cymru** **admin@concerncymru.org.uk or 07765 199725**

Mae Concern Cymru'n wasanaeth cwnsela elusennol sy'n cael ei redeg gan Gristnogion yn Ne Cymru. Maent yn cynnig cymorth ar anawsterau sy'n ymwneud â pherthnasoedd. Gall cleifion hunan-atgyfeirio i'r gwasanaeth hwn.